COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGIADAU A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 19 MEDI 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd R M Granville – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | D T Harrison | M L Hughes | D M Hughes |
| J Llewellyn-Hopkins | | | |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| C L C Davies | M R John | W J Kendall | J E Pratt |
| R J Smith | A Wathan | R Williams | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Rheoli Datblygiadau ac Adeiladu |
| Gillian Newson | Cyfreithiwr - Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tîm Gweithrediadau Bychan |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Steven Jenkins | Arweinydd Tîm - Gorllewin |
| Robert Morgan | Prif Swyddog Rheoli Datblygiadau Priffyrdd |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Cynllunio a Gwasanaethau Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Philip Thomas | Arweinydd Tîm - Dwyrain |
| Leigh Tuck | Prif Swyddog Rheoli Datblygiadau Priffyrdd |
| Ruth Davies | Uwch Swyddog Gorfodi |
| Kitty Powell | Uwch Swyddog Cynllunio |

## 46. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau canlynol:-<br><br>Y Cynghorydd R Collins<br>Y Cynghorydd H Griffiths |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

## 47. Datganiadau o Fuddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

## 48. Ymweliadau Safle

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Cadarnhau dydd Mercher 30 Hydref 2024 fel dyddiad ar gyfer arolygiadau safle arfaethedig oedd yn codi yn y cyfarfod, neu'n cael eu hadnabod cyn cyfarfod y Pwyllgor nesaf gan y Cadeirydd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

## 49. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli |

| | |
|---|---|
| | Datblygiadau dyddiedig 20 Awst 2024 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

**50. Siaradwyr Cyhoeddus**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw siaradwyr cyhoeddus yn y cyfarfod heddiw, ac eithrio'r Swyddog Cyfreithiol yn darllen cyflwyniad ysgrifenedig gan y Cynghorydd N Clarke mewn perthynas â Chais Cynllunio P/23/610/FUL. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

**51. Taflen Ddiwygiadau**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnol y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn cymryd i ystyriaeth sylwadau a diwygiadau hwyr y mae angen eu cynnwys. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

**52. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, yn amlinellu Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

| | |
|---|---|
| | |

**53. P/24/249/FUL, 19 Nant Ffornwg, Cefn Glas, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4TJ**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:<br><br>Cynnig<br><br>Cadw'r newid defnydd o breswylfa (Dosbarth Defnydd C3) i Dŷ Amlfeddiannaeth (HMO) (Dosbarth Defnydd C4). |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

**54. P/23/610/FUL, Rooklands Leisure Park, Pyle Road, Porthcawl CF36 5EJ**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:<br><br>Cynnig<br><br>Safle carafannau arfaethedig yn cynnwys 37 carafán statig/caban, adeilad derbynfa, mynediad newydd a ffyrdd mynediad, llefydd parcio, storfa biniau a gwaith cysylltiedig<br><br>Yn amodol ar Amod 5 o'r adroddiad yn cael ei aileirio fel a ganlyn:<br><br>5. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau hyd nes i gynllun teithio siwrnai fer, sy'n cynnwys mesurau caled ac esmwyth i wella diogelwch cerddwyr, pwyntiau mynediad teithio llesol a golau stryd yn cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio lleol. Bydd cynllun o'r fath yn cynnwys |

| | |
|---|---|
| | mesurau a mentrau sy'n gysylltiedig gydag annog a hyrwyddo defnyddio dulliau teithio cynaliadwy ac iach ar gyfer siwrne fer i mewn i'r safle ac oddi yno ar gyfer ymwelwyr newydd a phresennol, pwyntiau mynediad cerddwyr o'r safle ac isadeiledd ffordd fawr er diogelwch cerddwyr i gael ei wella. Bydd y cynllun yn cael ei roi ar waith cyn i ddefnydd buddiol cyntaf yr ailddatblygiad, gyda'r ddogfen cynllunio teithio yn cael ei hanfon gydag unrhyw becyn croeso neu ddeunydd ysgrifenedig gan gael eu harddangos ar y safle a gwefan.<br><br>Rheswm: Er mwyn hyrwyddo dulliau cynaliadwy ac iach o deithio i mewn i'r safle ac oddi yno ac er mwyn cydymffurfio gyda pholisïau SP3 a PLA12 o Gynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr 2024. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

## 55. Apeliadau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | (1) Nodi'r apeliadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel y dengys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.<br><br>(2) Nodir bod yr Arolygwr a benodwyd gan Weinidogion Cymru i bennu'r apêl ganlynol, wedi gwrthod yr Apêl:-<br><br>a) Rhif Apêl – CAS-02483-N2F1B6 (1982)<br><br>Pwnc yr Apêl - Codi 70 o breswylfeydd, llwybr cymunedol a man chwarae cysylltiedig a gofod agored i'r cyhoedd: Tir i'r dde o Rodfa Waunscil yn ymestyn i gefn Stryd Morfa, Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>b) Rhif Apêl – CAS-03065-L4R2B7 (1999)<br><br>Pwnc yr Apêl - Datblygiad preswylfan ar gyfer hyd at 50 o unedau preswyl (cais amlinellol gyda'r holl faterion yn cael eu cadw): Tir i'r gorllewin o'r A4065 i'r gogledd o Leyshon Way, Bryncethin<br><br>c) Rhif Apêl – CAS-03246-Q8W1S8<br><br>Pwnc yr Apêl - Byngalo un llawr, un ystafell wely: Tir wrth ochr 1, Ger y Bont, Pen-y-bont ar Ogwr. |

| | |
|---|---|
| | d) Rhif Apêl – CAS-03377-H9V6K6 (2008)<br><br>Pwnc yr Apêl - Newid eiddo i 5 fflat 2 ystafell wely, gydag estyniad ar yr ystafell wely yn y cefn: Allanfa dân yn y cefn: Ardwyn, 53 Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr<br><br>e) Rhif Apêl – CAS-03528-D2J2T8 (2011)<br><br>Pwnc yr Apêl - Ailfodelu preswylfa yn cynnwys newidiadau ac ymestyniadau, sydd i gynnwys cynnydd yn uchder y bargod a'r grib a darparu ystafelloedd cysgu To Gwastad: 1 The Whimbrels, Porthcawl<br><br>f) Rhif yr Apêl - CAS-03313-V4X5J4 (2010)<br><br>Pwnc yr Apêl - Newid defnydd a thrawsnewid yr ysgubor bresennol yn eiddo preswyl un llawr: Tir oddi ar Ddyffryn Madoc, Maesteg<br><br>(3) Y nodir bod yr Arolygwr a benodwyd gan Weinidogion Cymru i bennu'r apêl ganlynol, wedi pennu y dylid cynnal a diwygio'r Hysbysiad Gorfodi:-<br><br>Rhif Apêl - CAS-02850-K6N4H4 (1990)<br><br>Cynnwys tir oddi mewn i libart yr ardd heb iddo gael ei awdurdodi: 36 Llwyn Helig, Mynydd Cynffig<br><br>(4) Y nodir bod yr Arolygwr a benodwyd gan Weinidogion Cymru i bennu'r apêl ganlynol, wedi caniatáu'r Apêl, yn amodol ar yr Amodau a nodwyd (gweler Atodiad B yn yr adroddiad<br><br>Rhif Apêl - CAS-02850-K6N4H4 (1991)<br><br>Pwnc yr Apêl - Cynnwys tir oddi mewn i libart yr ardd heb iddo gael ei awdurdodi: 36 Llwyn Helig, Mynydd Cynffig. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

## 56. P/23/218/FUL - Tir ym Mrynmenyn a Bryncethin, Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygiad Arbennig ar 17 Hydref 2024, er mwyn ystyried y cais cynllunio Hy Bont a gynigiwyd o fewn yr ardal uchod.<br><br>Yn dilyn trafodaethau gan Aelodau a'r Swyddogion:<br><br>PENDERFYNWYD: (1) Y dylid cynnal Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu er mwyn ystyried Cais Cynllunio P/23/218/FUL ar y dyddiad uchod am 2.00pm yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>(2) Y dylai fformat ar gyfer diwrnod y pwyllgor fod fel y'i disgrifir yn yr adroddiad, ond y gallai gael ei newid yn ddibynnol ar y Cadeirydd yn cytuno gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.<br><br>(3) Y dylai hawliau siarad ar gyfer gwrthwynebwyr gael eu hymestyn i 10 munud yr un ar gyfer dim mwy na thri unigolyn, a bod yr amser i'r ymgeisydd ymateb hefyd i gael ei ymestyn i 10 munud. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

## 57. Enwebu a Phenodi i'r Is-Bwyllgor Hawl Tramwy

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Bod yr adroddiad yn cael ei ohirio nes y cyfarfod nesaf oedd wedi'i gynllunio o'r Pwyllgor Rheoli Datblygiad, er mwyn i Swyddogion ailystyried cyfansoddiad yr Is-Bwyllgor yn unol â'r canllawiau (os oes rhai) a amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

## 58. Cofnod Hyfforddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau sy'n amlinellu'r sesiynau Hyfforddiant sydd ar y gweill ar gyfer Aelodau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

## 59. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Medi 2024 |

Er mwyn arsylwi ymhellach ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon os gwelwch yn dda:

Daeth y cyfarfod i ben am 11:30.